

Ap – Anni Llŷn

Mae gen i...
ap arallfydion,
ap adeiladu,
ap dawnsio,
ap canu,
ap ffrwydro fferins,
ap rhifo,
ap byrstio balw̃ns,
ap lliwio,
ap creu cacen,
ap pwnio pêl,
ap anifail anwes,
ap casglu mêl,
ap chwarae tennis,
ap wyneb gwirion,
ap sŵn rhechu,
ap gwneud acenion,

Mae pob ap fel parti
ar fy nheclyn bach hud.
Ond beth yw'r pwynt cael parti
heb ffrindiau yn y byd.

Anni Llŷn, *Dim Ond Traed Brain* (Gomer, 2016)

Ci Defaid – Idris Reynolds

Ti yw'r ffrind cywir, tirion, ti yw clust
let y clos yn gyson,
Ti wastad yw'r llygad llon,
Ti yw Gelert y galon.

Idris Reynolds, *Draw Dros y Don* (Cyhoeddiadau Barddas, 2004)

Gweld Hen Ffrind – Gwion Hallam

(a gafodd ei ladd ar foto-beic tra'n fachgen ysgol)

Mae'r byd 'di cadw i droi ers iddo fynd
a'r clochau wedi cadw'u hamser llym
ers imi glywed sôn am daith fy ffrind
ar awr pan nad oedd amser i ni'n ddim
ond gair; ac yma rwy'n cyfadde' nawr
na fydda i'n cofio amdano erbyn hyn
wrth drïo gwasgu dyddiau i mewn i awr
a methu gwneud y mwya o f'amser prin.
Ond ddoe a minnau'n sownd yn ras y lôn
fe basiodd beic a'i sgrech yn rhyddid gwych,
a dyma'i wên fel golau'n llenwi 'ngho
nes i mi droi ac estyn at y drych –
a gweld mod innau'n teithio gyda'r byd
tra bod ei wyneb yntau'n iau o hyd.

Caneuon y Coridorau (Gwasg Carreg Gwalch, 2005)

Cysylltu – Mei Mac

(‘Get Connected’)

Er mynd i’r un ysgol, er byw’n yr un dre’
rydym yn rhannu ein cusanau dros y we.

Mae hi’n byw tua chwarter awr lawr y lôn,
ond rydym yn cyffwrdd ein gilydd dros linell y ffôn.

Yn ôl ei brawddegau sy’n llenwi fy sgrîn
'dyw hi byth yn siomedig, 'dyw hi byth yn flin.

Pob tro mae hi’n chwerthin mae’n gwneud fel hyn :-)
'sdim rhaid iddi fflachio ei dannedd gwyn, gwyn.

Er bod yn ei chwmni bob nos am ddwy awr,
er siarad a siarad, mae yna bellter mawr.

Caneuon y Coridorau (Gwasg Carreg Gwalch, 2005)

Hunlun – Gruffudd Owen

(ymson merch ysgol ar Facebook)

Yn rhad, cewch fy nirieidi, – cewch fy ngwallt
cewch fy ngwg fach secsi
dair-ar-ddeg, cewch fy rhegi,
cewch fy oll; jyst liciwch fi.

Gruffudd Owen, *Hel Llus yn y Glaw* (Cyhoeddiadau Barddas, 2015)